# Ar gyfer Cŵn, Ddoe, Heddiw, a Bob Amser

DogsTrust




**Maniffesto'r Dogs Trust ar gyfer Etholiad y Senedd yn 2026**



# Tabl cynnwys


01 Rhagair
05 Rheoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid
06 Gwell Deddfwriaeth Bridio Cŵn
07 Microsglodynnu – Olrhain Pob Ci yn Well
08 Trawsnewid Hysbysebu Anifeiliaid Anwes yng Nghymru
09 Mynediad Gwell at Dai Addas i Anifeiliaid Anwes ar draws Pob Math o Ddeiliadaeth
10 Polisïau sy’n Hyrwyddo Perchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn
11 Rhoi Diwedd ar Rasio Milgwn yng Nghymru
13 Cysylltu â Ni

# Rhagair

**Owen Sharp**
**Prif Weithredwr**

**Ers 135 o flynyddoedd, mae ein cariad at gŵn wedi bod yn hollol gyson. Fel elusen lles cŵn fwyaf y DU, mae Dogs Trust wedi arwain y ffordd o ran sicrhau dyfodol gwell i gŵn.**

Mae'r pum mlynedd diwethaf wedi newid lles cŵn yn ddramatig. Cynyddodd y galw am ein gwasanaethau'n sylweddol, yn ogystal â'r heriau o ran ailgartrefu cŵn, gyda mwy ohonynt yn cyrraedd ein gofal ac angen cymorth ychwanegol. Ni fu erioed fwy o angen am ddeddfwriaeth sy'n diogelu lles cŵn.

Yng Nghymru, rydym wedi dod yn ein blaenau'n dda i hyrwyddo a diogelu lles cŵn. Ers i ni agor ein Canolfan Ailgartrefu gyntaf ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym 1966, rydym wedi ehangu ein gwaith ledled y wlad. Yn 2021 agorwyd ein prif ganolfan ailgartrefu yng Nghaerdydd, ac ers hynny rydym wedi dod o hyd i gartrefi cariadus i dros 4,000 o gŵn yng Nghymru. Mae'r llwyddiant hwn yn dyst i gariad ac ymroddiad ein staff, ein gwirfoddolwyr, a'r gymuned ehangach. Yn ogystal â'n gwasanaethau ailgartrefu, rydym yn falch ein bod wedi gallu dod â'n gwasanaeth maethu anifeiliaid anwes arbenigol, Rhyddid, i Gymru. Mae'r rhaglen hanfodol hon yn cefnogi pobl sy'n dianc rhag cam-drin domestig drwy ddarparu gwasanaeth maethu anifeiliaid anwes cyfrinachol am ddim. Mae'n codi ymwybyddiaeth o sut y gall anifeiliaid anwes gael eu defnyddio'n rhy aml gan droseddwyr er mwyn gorfodi a rheoli. Ers ei lansio yng Nghymru yn 2022, rydym eisoes wedi maethu 110 o gŵn, ac wedi cefnogi 87 o ddioddefwyr/goroeswyr drwy raglen Rhyddid.

Mae ein tîm Materion Cyhoeddus wedi cynnal nifer o ddigwyddiadau ac wedi cynnal llawer o Aelodau o'r Senedd yn ein canolfannau ailgartrefu, sy'n dangos y cyfoeth o gefnogaeth ymysg Aelodau o'r Senedd i hyrwyddo a diogelu lles cŵn yng Nghymru. Rydw i wir yn gwerthfawrogi cefnogaeth Aelodau o'r Senedd sydd wedi hyrwyddo lles cŵn, oherwydd hebddynt ni fyddem wedi gwneud y cynnydd gwych rydym ni wedi'i wneud yn ystod y tymor blaenorol. Yn benodol, mae penderfyniad Llywodraeth flaenorol Cymru i ddod â rasio milgwn i ben yng Nghymru yn gam enfawr ymlaen o ran lles cŵn yn y wlad hon, ac yn gyflawniad na fyddai wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth llawer o Aelodau o'r Senedd i'n hymgyrch.

Cafodd Dogs Trust a phartneriaid fuddugoliaeth enfawr er lles milgwn rasio yn ystod tymor blaenorol y Senedd. Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyhoeddi ei bwriad i roi diwedd ar rasio milgwn erbyn mis Ebrill 2027 ar y cynharaf. Mae'r Dogs Trust a Chlymblaid Cut the Chase yn gobeithio gweld y ddeddfwriaeth arfaethedig yn cael ei phasio cyn gynted â phosibl. Wrth gwrs, rydym yn barod i helpu pob milgi sydd angen cartref o ganlyniad i'r diwydiant yn dod i ben yng Nghymru.

Gan edrych ymlaen at dymor nesaf y Senedd, rydym wedi ymrwymo o hyd i weithio gyda llunwyr polisïau, partneriaid, a chefnogwyr, i gyflawni polisïau sy'n gwella lles cŵn, yn union fel rydym wedi'i wneud erioed.

**Ar gyfer cŵn, ddoe, heddiw, a bob amser.**



# Llinell Amser

**1891**

Sefydlu'r Dogs Trust fel y National Canine Defence League (NCDL), gan Lady Gertrude Stock.

**1911**

NCDL yn dylanwadu ar y Ddeddf Gwarchod Anifeil-iaid. Gellir atal unrhyw un a geir yn euog o greulo-ndeb rhag cadw anifail.

**1912**

Agor ein canolfan ailgartrefu gyntaf; erbyn hyn mae gennym 22 ledled y DU, ac un yn Iwerddon.

**1966**

Dogs Trust yn agor ei Chanolfan gyntaf yng Nghymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

**1995**

Lansio 'Gyda'n Gilydd Drwy Ddigartrefedd', sy'n darparu triniaeth filfeddygol am ddim i gŵn perchnogion sy'n wynebu digartrefedd.

**2003**

NCDL yn newid ei henw i'r Dogs Trust.

**2004**

Lansio Rhyddid. Gwasanaeth maethu cŵn sydd am ddim i helpu pobl a'u cŵn i ddianc rhag cam-drin domestig.

**2010**

Gwahardd defnyddio coleri sioc yng Nghymru, rhywbeth roedden ni wedi ymgyrchu i Lywodraeth Cymru ei wneud.

**2014**

Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) yn pasio.

**2016**

Microsglodynnu cŵn yn orfodol yng Nghymru, Lloegr, a'r Alban. Roedden ni wedi ymgyrchu'n hir dros gael llywodraethau i wneud hyn.

**2021**

Agor Canolfan Ailgartrefu Caerdydd, ein 22ain canolfan.


Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 Buom yn ymgyrchu dros gyflawni'r newid hwn.

**2022**

Rhyddid yn ehangu i Gymru.

**2025**

Cyflawni Ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i roi diwedd ar Rasio Milgwn yng Nghymru.



# Rheoleiddio Sefydliadau Lles Anifeiliaid




## Cefndir


Ar hyn o bryd, gall unrhyw un yng Nghymru sefydlu ei hun fel sefydliad achub anifeiliaid ac ailgartrefu cŵn yn lleol ac o dramor heb drwydded nac archwiliad, ac mae hyn yn destun pryder. Nid yw bod yn sefydliad lles anifeiliaid yn gwarantu lles da yn awtomatig, fel yr ydym wedi'i weld mewn sawl achos proffil uchel ledled Cymru. Mae'r Dogs Trust yn arbennig o bryderus am ailgartrefu rhyngwladol, gan gynnwys y risg o fewnforio clefydau a phroblemau ymddygiad y gallai cŵn achub o dramor eu profi. Mae llawer o'r sefydliadau hyn yn gweithredu ar gyfryngau cymdeithasol yn unig, heb sail busnes.

Mae'r Dogs Trust yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynigion ar gyfer rheoleiddio sefydliadau lles anifeiliaid. Mae safonau cyson a safonau sy'n cael eu gorfodi yn hanfodol i ddiogelu lles anifeiliaid a sicrhau arferion cyfrifol. Edrychwn ymlaen at gefnogi datblygiad fframwaith cadarn ac effeithiol.

**Beth rydym eisiau ei weld:**

- **Diwygiadau i ddeddfwriaeth Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid i gynnwys trwyddedu ac archwilio sefydliadau lles anifeiliaid.**
- **Rhaid i unrhyw reoliadau newydd gynnwys sefydliadau lles anifeiliaid sy'n ailgartrefu o dramor, a rhaid i'r rheoliadau hyn gynnwys gofyniad bod yn rhaid i'r sefydliadau hyn gael safleoedd yng Nghymru a/neu'r DU.**
- **Defnyddio Safonau Lles a Gweithredu Sylfaenol y Gymdeithas Cartrefi Cŵn a Chathod fel llinell sylfaen ar gyfer unrhyw drefn drwyddedu, gan sicrhau bod pob sefydliad lles anifeiliaid yn bodloni safonau lles a gofal cyson y gellir eu gorfodi.**
- **Cyflwyno archwiliadau gorfodol rheolaidd a gynhelir gan arolygwyr lles anifeiliaid arbenigol sydd wedi'u hyfforddi'n ganolog, gyda chanolfannau rhanbarthol yn darparu cymorth i bob awdurdod lleol. Fel rhan o hyn, hoffem weld cyllid hirdymor cynaliadwy ar gyfer Trwyddedu Anifeiliaid Cymru i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gallu cael gafael ar orfodwyr sydd wedi'u hyfforddi i archwilio materion sy'n ymwneud â lles anifeiliaid.**
- **Creu cronfa ddata ganolog o'r holl sefydliadau lles anifeiliaid yng Nghymru.**





# Gwell Deddfwriaeth Bridio Cŵn

## Cefndir

Mae'r Dogs Trust yn credu ei bod yn bryd diwygio deddfwriaeth bridio cŵn yng Nghymru o'r bôn i'r brig. Mae gormod o fylchau yn y system drwyddedu bresennol, sy'n aml yn cael eu hecsbloetio ar draul lles cŵn. Ar hyn o bryd, dim ond os ydynt yn bridio tair torllwyth neu fwy y flwyddyn y mae bridwyr angen trwydded. Mae hyn yn golygu bod rhai bridwyr a gwerthwyr yn osgoi'r system drwyddedu drwy esgus eu bod yn fridwyr ar raddfa fach. Gall llai o les ddigwydd hefyd, ni waeth beth yw graddfa'r gweithrediadau bridio. Ar ben hynny, nid yw lles cŵn bridio yn cael ei ddiogelu gan y ddeddfwriaeth. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae angen system gofrestru a thrwyddedu well a chadarn arnom ar frys.  Os yw'r mesurau hyn am lwyddo, mae angen i Lywodraeth nesaf Cymru adeiladu ar lwyddiannau Trwyddedu Anifeiliaid Cymru i sicrhau ein bod yn codi safonau sefydliadau bridio ledled Cymru.

**Beth rydym eisiau ei weld:**

- **Mae'r Dogs Trust yn credu y dylai fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n bridio, yn gwerthu, neu'n trosglwyddo perchnogaeth cŵn bach, gael eu cofrestru, ni waeth beth fo unrhyw drafodiad neu enillion ariannol.**
- **Dylai unrhyw un sy'n bridio mwy nag un torllwyth mewn unrhyw gyfnod o 12 mis gael trwydded.**
- **Mae angen creu system gadarn o gofrestru a thrwyddedu sy'n cynnwys gofynion gorfodol i ddiogelu iechyd a lles cŵn bridio, yn ogystal â geist a chŵn bach sy'n bridio.**



# Microsglodynnu – Olrhain Pob Ci yn Well

## Cefndir

Roedd Dogs Trust yn croesawu cyflwyno Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015. Bwriad y ddeddfwriaeth oedd gwella'r broses o ailuno cŵn sydd wedi'u dwyn a chŵn sydd ar goll, yn ogystal â'r gallu i olrhain bridwyr. Fodd bynnag, mae dros 20 o gronfeydd data sy'n cydymffurfio â'r DU bellach ar waith, heb un pwynt chwilio i filfeddygon, sefydliadau ailgartrefu, nac awdurdodau lleol gael mynediad at gofnodion a'u diweddaru.

### Beth rydym eisiau ei weld:

- **Diwygio Rheoliadau Microsglodynnu Cŵn (Cymru) 2015 i gyflwyno maes cronfa ddata gorfodol wrth gofrestru cŵn bach, gan gofnodi pwy oedd yn bridio'r ci er mwyn ei helpu'n well i olrhain a gorfodi.**
- **Llywodraeth Cymru i weithio gyda Llywodraeth y DU i gyflwyno un pwynt chwilio ledled y DU ar gyfer cofnodion sy'n cael eu cadw ar draws yr holl gronfeydd data microsglodion.**
- **Rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru, ynghyd â llywodraethau ledled y DU, ymchwilio ar y cyd i greu rhestr ganolog, sy'n hygyrch i'r cyhoedd, o fridwyr cofrestredig a thrwyddedig, sy'n cael ei chadw neu ei hwyluso ar y cyd.**



# Trawsnewid Hysbysebu Anifeiliaid Anwes yng Nghymru




## Cefndir

Dogs Trust yn cadeirio'r Grŵp Cynghori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes (PAAG). Sefydlwyd y grŵp hwn yn 2001 yn dilyn pryderon cynyddol ynghylch hysbysebu anifeiliaid anwes yn anghyfrifol i'w gwerthu ar-lein.

Yn syfrdanol, mae rheoleiddio hysbysebion a gwerthiant anifeiliaid anwes ar-lein yn dal yn gyfyngedig iawn, ac rydym wedi gweld achosion lle mae pobl wedi prynu cŵn sâl heb sylweddoli, neu wedi cael eu twyllo i brynu cŵn nad ydynt yn bodoli mewn gwirionedd. Ar hyn o bryd, mae deddfwriaeth drwyddedu yn gofyn i weithredwyr trwyddedig ddangos manylion eu trwydded ar hysbysebion. Fodd bynnag, nid oes modd gorfodi hyn, ac nid yw'n darparu llawer o dryloywder na'r gallu i olrhain oherwydd y trothwy trwyddedu.

Yn absenoldeb rheoleiddio, mae'r Grŵp Cynghori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes wedi datblygu set o Safonau Hysbysebu a gefnogir gan y Llywodraeth. Fodd bynnag, er bod y rhain yn parhau i fod yn wirfoddol, mae faint o effaith maen nhw'n eu cael yn gyfyngedig.

### Beth rydym eisiau ei weld:

- **Safonau Hysbysebu'r Grŵp Cynghori ar Hysbysebu Anifeiliaid Anwes yn cael eu rhoi ar waith mewn deddfwriaeth i wella safonau pob hysbyseb ar gyfer anifeiliaid anwes, nid dim ond y rhai gan werthwyr trwyddedig.**
- **Gofyniad bod unrhyw hysbyseb ar gyfer gwerthu ci bach yn dangos rhif cofrestru neu rif trwydded, er mwyn i brynwyr allu gwirio gan bwy maen nhw'n prynu ci.**



# Mynediad Gwell at Dai Addas i Anifeiliaid Anwes ar draws Pob Math o Ddeiliadaeth

## Cefndir

Mae Cymru yng nghanol argyfwng tai – gyda diffyg llety ar gael. Gwyddom fod y diffyg cartrefi sy'n addas i anifeiliaid anwes yn un o'r prif ffactorau pam fod pobl yn trosglwyddo eu cŵn i'n canolfannau ailgartrefu yng Nghymru. Yn 2024, cawsom 43,230 o ymholiadau trosglwyddo gan unigolion ledled y DU. Daeth 3,884 o'r holl ymholiadau trosglwyddo o'n canolfannau ailgartrefu yng Nghymru. Roedd 510 o'r ymholiadau trosglwyddo yn nodi mai "newid mewn llety neu gytundeb rhentu" oedd y rheswm dros fod eisiau trosglwyddo eu ci/cŵn i ni. Mae hyn yn cyfateb i oddeutu 13% o'r holl ymholiadau yng Nghymru. Felly, mae'n hanfodol bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau llwybr tai didrafferth i bob perchennog anifail anwes.

### Beth rydym eisiau ei weld:

- **Yr hawl i ofyn am anifail anwes heb i'r cais hwnnw gael ei wrthod yn afresymol gan y landlord.**
- **Cyhoeddi canllawiau ar yr hyn sy'n cael ei "wrthod yn afresymol" gyda hawl i apelio i bob tenant ni waeth beth yw eu math o ddeiliadaeth.**
- **Cyflwyno amserlen o 14 diwrnod ar gyfer landlordiaid cymdeithasol a landloriaid preifat (saith diwrnod i uwchlandlordiaid) i ymateb i geisiadau am anifeiliaid anwes.**
- **Newid yn y rheolau fel na all awdurdodau lleol beidio â chyflawni eu dyletswydd i ddod o hyd i lety addas i bobl sy'n gwrthod cynnig o lety oherwydd nad yw'n addas i'w hanifail anwes.**






# Polisïau sy'n Hyrwyddo Perchnogaeth Gyfrifol ar Gŵn

## Cefndir

Mae'r Dogs Trust yn credu bod deddfwriaeth sy'n benodol i fridiau nid yn unig yn niweidiol i les cŵn, ond nid yw'n effeithiol ac nid yw'n gwneud llawer i ddiogelu aelodau o'r cyhoedd. Credwn ei bod yn hen bryd diwygio a chydgrynhoi deddfwriaeth rheoli cŵn, a bod angen diddymu Deddfwriaeth Benodol i Fridiau a chyflwyno deddfwriaeth ataliol niwtral i'w disodli.

Mae angen inni sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r achosion sylfaenol, ac yn cymryd camau ataliol i leihau achosion o gŵn yn brathu, fel sicrhau bod cŵn yn cael y dechrau iawn mewn bywyd, a bod perchnogion yn cael y cyngor gorau posibl i fynd i'r afael ag ymddygiad problemus. Er ein bod yn cydnabod nad yw Deddf Cŵn Peryglus 1991 wedi'i datganoli i'r Senedd, mae ymyriadau polisi y gall Llywodraeth Cymru eu gwneud, sy'n cynnwys ein blaenoriaethau polisi a nodwyd yn flaenorol ar fridio cŵn a sefydliadau lles anifeiliaid.

### Beth rydym eisiau ei weld:

- **Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio tuag at ddeddfwriaeth a gorfodaeth effeithiol sy'n niwtral o ran bridiau, gyda mesurau sy'n caniatáu ymyrraeth gynnar.**
- **Cofnodi ac adrodd safonol ar gŵn yn brathu ac ymosod, ar draws gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru er mwyn deall yn well sut y gellir osgoi digwyddiadau cŵn yn brathu.**
- **Dull amlasiantaethol o ddatblygu canllawiau proffesiynol i wella a sicrhau lles cŵn sy'n cael eu hatafaelu o dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991.**



# Rhoi Diwedd ar Rasio Milgwn yng Nghymru

## Cefndir

Ym mis Chwefror 2025, Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i ymrwymo i roi diwedd ar rasio milgwn, a oedd yn gam cyntaf enfawr i sicrhau bod lles milgwn rasio yn cael ei ddiogelu. Yn anffodus oherwydd cyfyngiadau amser ar ddiwedd tymor diwethaf y Senedd, methodd Llywodraeth Cymru â phasio'r ddeddfwriaeth ofynnol.

Er mwyn sicrhau nad yw'r mater hwn yn cael ei fwrw o'r neilltu, mae'n bwysig bod llunwyr polisïau yn ymrwymo ac yn rhoi terfyn ar rasio milgwn yng Nghymru. Mae rhedeg ar gyflymder o gwmpas traciau hirgrwn yn achosi niwed sylweddol i lawer o gŵn, ac mewn rhai achosion mae'r anafiadau mor ddifrifol fel bod yn rhaid ewthaneiddio'r ci.

Yn ystod 2024 yn unig, cafodd 3,809 o filgwn eu hanafu ar draciau Bwrdd Milgwn Prydain Fawr yng Nghymru a Lloegr, ac mae 346 o filgwn wedi marw o ganlyniad i gymryd rhan yn y diwydiant. Mae hyn yn gwbl annerbyniol. Bydd rhagor o oedi yn arwain at fwy o ddioddef i filgwn rasio yng Nghymru.

**Beth rydym eisiau ei weld:**

- **Cyflwyno deddfwriaeth i roi diwedd ar rasio milgwn yng Nghymru.**








# Cysylltu â Ni

**Os hoffech chi drafod ein argymhellion mewn mwy o fanylder, anfonwch neges e-bost at: Publicaffairs@dogstrust.org.uk**

www.dogstrust.org.uk/publicaffairs

© Dogs Trust 2026

Mae Dogs Trust yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1167663), ac yn yr Alban (SC053144), ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr (09365971).